



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 2459 (Cy.207)

2007 No. 2459 (W.207)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Milheintiau (Monitro)
(Cymru) 2007**

**The Zoonoses (Monitoring)
(Wales) Regulations 2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau mynediad i arolygwyr fynd i fangreodd er mwyn monitro ar gyfer milheintiau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd i gyfryngau milheintiol a chyfryngau eraill sy'n fgythyad i iechyd y cyhoedd, fel sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb 2003/99/EC (ar fonitro milheintiau a chyfryngau milheintiol, a honno'n Gyfarwyddeb sy'n diwygio Penderfyniad y Cyngor 90/424/EEC ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/117/EEC) (rheoliad 4). Mae rheoliad 5 yn nodi'r hyn y caniateir i arolygwyr ei wneud yn y mangreodd hynny, gan gynnwys cymryd samplau, archwilio cofnodion a holi unrhyw berson.

These Regulations provide inspectors with the powers of entry onto premises to monitor for zoonoses and antimicrobial resistance to zoonotic agents and other agents that pose a threat to public health, as required by Directive 2003/99/EC (on the monitoring of zoonoses and zoonotic agents, amending Council Decision 90/424/EEC and repealing Council Directive 92/117/EEC) (regulation 4). Regulation 5 sets out what inspectors may do on those premises, including take samples, examine records and make enquiries of any person.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd sy'n ymwneud â chynhyrchu sylfaenol i breserfio arunigion sydd wedi'u profi i weld a oes milhaint ynddynt ac i gadw canlyniadau'r profion hynny ac, os gofynnir iddynt wneud hynny, eu darparu i Weinidogion Cymru.

Regulation 6 requires food business operators involved in primary production to preserve isolates that have been tested for a zoonosis and to keep the results of those tests and provide them to the Welsh Ministers on demand.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru o ran unrhyw raglen ar gyfer monitro milheintiau neu gyfryngau milheintiol mewn anifeiliaid gwyllt sy'n cynnwys samplu anifeiliaid gwyllt byw neu eu nythod neu eu manau gorffwys.

Regulation 7 requires the Welsh Ministers to consult the Countryside Council for Wales in relation to any programme for the monitoring of zoonosis or zoonotic agents in wild animals that includes sampling of live wild animals or their nests or resting places.

Mae rheoliad 8 yn creu tramgwyddau am rwystro arolygydd ac yn nodi'r cosbau sy'n gymwys. Mae rheoliad 10 yn ymdrin â gorfodi.

Regulation 8 creates offences for obstructing an inspector and sets out the applicable penalties. Regulation 10 deals with enforcement.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol o'r effaith y bydd y Rheoliadau hyn yn ei gael wedi ei baratoi ac wedi ei atodi i'r Memorandum Esboniadol. Gellir cael copïau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A regulatory impact assessment of the effect which these Regulations will have has been prepared and is annexed to the Explanatory Memorandum. Copies can be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2007 Rhif 2459 (Cy.207)

2007 No. 2459 (W.207)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Milheintiau (Monitro)
(Cymru) 2007**

**The Zoonoses (Monitoring)
(Wales) Regulations 2007**

Wedi'u gwneud 20 Awst 2007

Made 20 August 2007

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 22 Awst 2007

*Laid before the National
Assembly for Wales* 22 August 2007

Yn dod i rym 1 Hydref 2007

Coming into force 1 October 2007

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) o ran mesurau ym maes milfeddygaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd, ac a freiniwyd bellach ynddynt(3) drwy'r adran honno'n gwneud y rheoliadau canlynol:

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them (1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to measures in the veterinary field for the protection of public health, and now vested in them(3) make the following regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau (Monitro) (Cymru) 2007; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 1 Hydref 2007.

Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is the Zoonoses (Monitoring) (Wales) Regulations 2007; they apply in relation to Wales and come into force on 1 October 2007.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw unrhyw berson a benodwyd i fod yn arolygydd at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod lleol;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*"), o ran unrhyw ardal yng Nghymru, yw cyngor sir yr ardal neu gyngor bwrdeistref sirol yr ardal;

Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"inspector" ("*arolygydd*") means any person appointed to be an inspector for the purposes of these Regulations by the Welsh Ministers or a local authority;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means in respect of any area of Wales, the county council or the county borough council, of the area;

(1) O.S. 2003/1246.

(2) 1972 p.68.

(3) Mae'r swyddogaethau a roddwyd o dan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) Gorchymyn 2003 (OS 2003/1246) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(1) S.I. 2003/1246.

(2) 1972 c .68.

(3) Functions conferred under the European Communities (Designation)(No. 2) Order 2003 (SI 2003/1246) to the National Assembly for Wales are exercisable by the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb 2003/99/EC ar fonitro milheintiau a chyfyngau milheintiol a honno'n Gyfarwyddeb sy'n diwygio Penderfyniad y Cyngor 90/424/EEC ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/117/EEC(1).

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir yr ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn y Gyfarwyddeb yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag ystyr yr ymadroddion Saesneg hynny yn y Gyfarwyddeb honno.

Yr awdurdod cymwys

3. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Erthyglau 3(2), 6(1) ac 8(2) o'r Gyfarwyddeb i'r graddau y mae'r Gyfarwyddeb honno'n ymwneud ag anifeiliaid.

Pwerau mynediad

4.-(1) Mae gan arolygydd, ar ôl dangos, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, ryw ddogfen sydd wedi'i dilysu'n briodol ac sy'n dangos ei awdurdod, hawl ar bob adeg resymol, i fynd i mewn i unrhyw fangre lle mae, neu lle'r oedd, unrhyw anifail neu unrhyw fwyd anifeiliaid yn bresennol er mwyn-

- (a) penderfynu a oes unrhyw filhaint a restrir yn yr Atodlen neu unrhyw gyfrwng milheintiol i unrhyw filhaint o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli yno;
- (b) penderfynu a oes tystiolaeth bod ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn unrhyw gyfrwng milheintiol o'r fath neu mewn unrhyw gyfrwng arall sy'n fygythiad i iechyd y cyhoedd;
- (c) penderfynu, os yw'r sefyllfa epidemiolegol yn ei gwneud yn ofynnol-
 - (i) a oes unrhyw filhaint arall neu gyfrwng milheintiol arall yn bodoli neu wedi bodoli yno;
 - (ii) a oes tystiolaeth am ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn unrhyw gyfrwng milheintiol o'r fath;
 - (iii) a yw unrhyw gyfrwng i unrhyw heintiad sy'n bodoli neu sydd wedi bodoli yn y fangre honno yn drosglwyddadwy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o anifeiliaid i bobl;
 - (iv) a oes unrhyw gyfrwng i unrhyw heintiad sydd, neu a all fod, yn uniongyrchol drosglwyddadwy o anifeiliaid i bobl yn bodoli yn y fangre honno; neu
- (ch) gorfodi'r Rheoliadau hyn.

"the Directive" ("*y Gyfarwyddeb*") means Directive 2003/99/EC on the monitoring of zoonoses and zoonotic agents amending Council Decision 90/424/EEC and repealing Council Directive 92/117/EEC(1).

(2) Expressions used in both these Regulations and the Directive have the same meaning in these Regulations as they have in that Directive.

Competent authority

3. The Welsh Ministers are the competent authority for the purposes of Articles 3(2), 6(1) and 8(2) of the Directive in so far as that Directive relates to animals.

Powers of entry

4.-(1) An inspector has, on producing if so required, some duly authenticated document showing his or her authority, a right at all reasonable hours, to enter any premises on which any animal or animal feedingstuff is, or has been, present for the purpose of-

- (a) determining whether any zoonosis listed in the Schedule or any zoonotic agent of any such zoonosis exists or has existed there;
- (b) determining whether there is evidence of antimicrobial resistance in any such zoonotic agent or in any other agent that presents a threat to public health;
- (c) determining, if the epidemiological situation so requires, whether-
 - (i) any other zoonosis or zoonotic agent exists or has existed there;
 - (ii) there is evidence of antimicrobial resistance in any such zoonotic agent;
 - (iii) any agent of any infection that exists or has existed on those premises is transmissible directly or indirectly from animals to humans;
 - (iv) any agent of any infection that is, or may be, transmissible directly from animals to humans exists on those premises; or
- (d) the enforcement of these Regulations.

(1) OJ Rhif L 325, 12.12.2003, t.31.

(1) OJ No. L 325, 12.12.2003, p.31.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i gael mynediad i unrhyw fangre sy'n cael ei defnyddio fel tŷ annedd preifat yn unig oni bai bod hysbysiad, sy'n rhoi 24 awr o rybudd o'r mynediad arfaethedig, wedi'i roi i'r meddiannydd, neu fod y mynediad yn unol â gwarant a roddir o dan y rheoliad hwn.

(3) Os yw Ynad Heddwch, ar ôl cael gwybodaeth ysgrifenedig ar lw, wedi'i fodloni bod sail resymol dros fynd i mewn i unrhyw fangre er mwyn gorfodi'r Rheoliadau hyn, a naill ai -

- (a) bod mynediad i'r fangre wedi'i wrthod, neu y disgwylir iddo gael ei wrthod, ac (yn y naill achos neu'r llall) fod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi'i roi i'r meddiannydd;
- (b) y byddai gofyn am gael mynediad, neu roi hysbysiad o'r fath, yn mynd yn groes i'r amcan o fynd i mewn;
- (c) bod yr achos yn achos brys; neu
- (ch) bod y fangre heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro,

caiff yr Ynad drwy warant a lofnodir ganddo awdurdodi'r arolygydd i fynd i mewn i'r fangre, gan ddefnyddio grym rhesymol os bydd angen.

(4) Bydd gwarant o dan yr adran hon yn parhau mewn grym am un mis.

(5) Os bydd arolygydd yn mynd i mewn i unrhyw fangre nad yw wedi'i meddiannu, rhaid iddo ei gadael wedi'i diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad diawdurdod ag ydoedd pan aeth yno gyntaf.

(6) Yn y rheoliad hwn:

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw dir, unrhyw le, unrhyw gerbyd neu ôl-gerbyd, unrhyw gynhwysydd, unrhyw stondin neu adeiladwaith symudol, ac unrhyw long neu awyren.

Pwerau arolygwyr

5. Caiff arolygydd sy'n mynd i mewn i fangre o dan reoliad 4 -

- (a) gwneud yr ymholiadau, yr archwiliadau a'r profion a chymryd y samplau (gan gynnwys unrhyw garcas anifail neu unrhyw ran o garcas anifail, gwaed, deunydd ysgarthol, bwyd anifeiliaid, sarn a chynhyrchion anifeiliaid) y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol;
- (b) archwilio unrhyw gofnodion ar ba ffurf bynnag y bôn a chymryd copïau neu allbrintiau o'r cofnodion hynny;
- (c) marcio, neu beri iddynt gael eu marcio, at ddibenion eu hadnabod, unrhyw anifail, carcass anifail neu unrhyw beth y mae unrhyw un o'r pwerau o dan is-baragraffau (a) neu (b) wedi'u harfer mewn perthynas â hwy;

(2) Paragraph (1) does not apply to admission to any premises used only as a private dwelling-house unless 24 hours' notice of the intended entry has been given to the occupier, or the entry is in accordance with a warrant granted under this regulation.

(3) If a Justice of the Peace, on sworn information in writing, is satisfied that there are reasonable grounds for entry into any premises for the purposes of the enforcement of these Regulations, and either-

- (a) admission has been refused, or a refusal is expected, and (in either case) that notice to apply for a warrant has been given to the occupier;
- (b) asking for admission, or the giving of such a notice, would defeat the object of the entry;
- (c) the case is one of urgency; or
- (d) the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent,

the Justice may by warrant signed by him or her authorise the inspector to enter the premises, if necessary by reasonable force.

(4) A warrant under this section will continue in force for one month.

(5) If an inspector enters any unoccupied premises he or she must leave them as effectively secured against unauthorised entry as he or she found them.

(6) In this regulation

"premises" ("*mangre*") includes any land, any place, any vehicle or trailer, any container, any stall or moveable structure, and any ship or aircraft.

Powers of inspectors

5. An inspector entering premises under regulation 4 may-

- (a) carry out such enquiries, examinations and tests and take such samples (including any animal carcase or any part of an animal carcase, blood, faecal material, feeding stuff, litter or any animal products) as he or she considers necessary;
- (b) examine any records in whatever form and take copies or printouts of those records;
- (c) mark, or cause to be marked, for identification purposes, any animal, animal carcase or thing in relation to which any of the powers under sub-paragraphs (a) or (b) have been exercised;

- (ch) holi unrhyw berson;
- (d) gosod unrhyw gyfarpar (gan gynnwys unrhyw fagl) yn y fangre er mwyn dal neu fonitro unrhyw anifail gwyllt (gan gynnwys unrhyw gludwr sy'n arthropod) neu er mwyn canfod unrhyw ficro-organedd;
- (dd) cymryd gydag ef unrhyw berson, cerbyd neu gyfarpar y mae'n barnu ei fod yn angenrheidiol i roi'r Rheoliadau hyn ar waith; ac
- (e) cymryd gydag ef unrhyw gynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd.

Archwilio arunigion

6.-(1) Rhaid i weithredydd busnes bwyd sy'n gyfrifol am gynhyrchu sylfaenol ac sy'n archwilio arunigion, neu sy'n peri bod archwiliad o arunigion yn cael ei gynnal, er mwyn canfod a oes unrhyw filhaint neu gyfrwng milheintiol yn bresennol-

- (a) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr arunigion yn cael ei breserfio am gyfnod o bythefnos o ddyddiad yr archwiliad; a
- (b) cadw canlyniadau'r archwiliad am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad y dânt i law a'u darparu i Wenidogion Cymru ar unwaith os gofynnir amdanynt yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw sampl a gymerir at ddibenion Gorchymyn Heidiau Bridio a Deorfeydd Dofednod (Cymru) 2007(1).

Monitro anifeiliaid gwyllt

7. Os bydd Gweinidogion Cymru yn paratoi rhaglen ar gyfer monitro milheintiau neu gyfryngau milheintiol mewn anifeiliaid gwyllt sy'n cynnwys cymryd unrhyw sampl oddi wrth anifail gwyllt byw neu oddi wrth unrhyw wŷ neu samplau o unrhyw fannau gorffwysu dros dro neu barhaol neu nyth anifail gwyllt, rhaid iddynt ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru cyn cychwyn monitro.

Tramgwyddau a chosbau

- 8.-(1) Mae person yn euog o dramgwydd os yw-
- (a) yn rhoi unrhyw driniaeth i anifail gyda'r bwriad o guddio unrhyw filhaint neu gyfrwng milheintiol;
 - (b) yn difwyno, yn dileu neu'n tynnu ymaith unrhyw farc a osodir o dan reoliad 5(c);
 - (c) yn symud ymaith neu'n niweidio'n fwriadol unrhyw gyfarpar a osodir mewn mangre o dan reoliad 5(d);
 - (ch) yn methu â chydymffurfio â rheoliad 6(1);
 - (d) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith neu i'w gorfodi;

- (d) make enquiries of any person;
- (e) place any equipment (including any trap) on the premises for the purpose of capturing or monitoring any wild animal (including any arthropod vector) or for detecting any micro-organism;
- (f) take with him or her any person, vehicle or equipment that he or she considers necessary for the execution of these Regulations; and
- (g) take with him or her any representative of the European Commission.

Examination of isolates

6.-(1) A food business operator responsible for primary production who examines an isolate, or causes an examination of an isolate to be carried out, in order to detect the presence of any zoonosis or zoonotic agent must-

- (a) take all reasonable steps to ensure that the isolate is preserved for a period of at least two weeks from the date of the examination; and
- (b) keep the results of the examination for a period of 12 months from receipt and supply them to the Welsh Ministers immediately upon demand during that period.

(2) Paragraph (1) does not apply to any sample taken for the purposes of the Poultry Breeding Flocks and Hatcheries (Wales) Order 2007(1).

Monitoring wild animals

7. If the Welsh Ministers prepare a programme for the monitoring of zoonoses or zoonotic agents in wild animals that includes the taking of any sample from a live wild animal or any egg or sample from the temporary or permanent resting place or nest of a wild animal, they must consult the Countryside Council for Wales before monitoring commences.

Offences and penalties

- 8.-(1) A person is guilty of an offence if he or she-
- (a) administers any treatment to an animal with the intention of disguising any zoonosis or zoonotic agent;
 - (b) defaces, obliterates or removes any mark applied under regulation 5(c);
 - (c) removes or intentionally damages any equipment placed on premises under regulation 5(e);
 - (d) fails to comply with regulation 6(1);
 - (e) intentionally obstructs any person acting in the execution of these Regulations or enforcement;

(1) O.S. 2007/1708 (W.147).

(1) S.I. 2007/1708 (W.147).

(dd) yn rhoi unrhyw wybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith neu i'w gorfodi;

(e) yn methu, heb esgus rhesymol-

- (i) â rhoi unrhyw gymorth neu wybodaeth y gall unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith neu i'w gorfodi ei gwneud yn ofynnol iddo ei roi neu ei rhoi; neu
- (ii) â dangos unrhyw gofnod y caiff unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith neu i'w gorfodi ei gwneud yn ofynnol iddo ei ddangos,

ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r person hwnnw o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol

9.-(1) Os dangosir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol-

- (a) wedi'i gyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad swyddog; neu
- (b) i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran,

bydd y swyddog, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Pan fo materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, bydd paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffygion aelod mewn cysylltiad â'i swyddogaethau rheoli fel pe bai'r aelod hwnnw'n un o gyfarwyddwyr y corff.

(3) Ystyr "swyddog" ("*officer*"), mewn perthynas â chorff corfforaethol yw cyfarwyddwr, aelod o bwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall i'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath.

Gorfodi

10.-(1) Mae'r Rheoliadau hyn i'w gorfodi gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu mewn perthynas ag achos penodol, y byddant hwy, yn hytrach na'r awdurdod lleol, yn gorfodi'r Rheoliadau hyn.

(f) gives any information that he or she knows to be false or misleading to any person acting in the execution or enforcement of these Regulations;

(g) fails, without reasonable excuse-

- (i) to give any assistance or information that any person acting in the execution or enforcement of these Regulations may require him or her to give; or
- (ii) to produce any record that any person acting in the execution or enforcement of these Regulations may require him or her to produce,

for the performance of that person's functions under these Regulations.

(2) A person guilty of an offence under these Regulations is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Offences by bodies corporate

9.-(1) If an offence under these Regulations committed by a body corporate is shown-

- (a) to have been committed with the consent or connivance of an officer; or
- (b) to be attributable to any neglect on his or her part,

the officer as well as the body corporate is guilty of the offence and is liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) If the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (1) applies in relation to the acts and defaults of a member in connection with his or her functions of management as if he or she were a director of the body.

(3) "Officer" ("*swyddog*") in relation to a body corporate, means a director, member of the committee of management, chief executive, manager, secretary or other similar officer of the body, or a person purporting to act in any such capacity.

Enforcement

10.-(1) These Regulations are to be enforced by the local authority.

(2) The Welsh Ministers may direct, in relation to cases of a particular description or any particular case, that they will enforce these Regulations instead of the local authority.

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
Weinidogion Cymru

20 Awst 2007

20 August 2007

YR ATODLEN

SCHEDULE

Rheoliad 4(1)(a)

Regulation 4(1)(a)

Milheintiau

Zoonoses

brwselosis

brucellosis

campylobacteriosis

campylobacteriosis

ecinococosis

echinococosis

listeriosis

listeriosis

salmonelosis

salmonellosis

tricinosis

trichinellosis

twbercwlosis oherwydd Mycobacterium bovis

tuberculosis due to Mycobacterium bovis

Escherichia coli ferotocsigenig

verotoxigenic Escherichia coli

WELSH

○

£3.00

W110/10/07

ON